## P-06-1400 Adnoddau Teg a Digonol ar gyfer Practisau Cyffredinol yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lewis Williams, ar ôl casglu 21,620 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**

Mae practisau cyffredinol yng Nghymru dan straen sylweddol a chynyddol. Mae nifer y meddygon teulu yn gostwng, mae'r galw yn cynyddu, ac mae practisau'n cael trafferth recriwtio a chadw staff.

Mae practisau cyffredinol yn cael eu gorfodi i geisio ymdopi ag adnoddau annigonol, llwyth gwaith anghynaliadwy, a gweithlu sydd o dan bwysau ledled Cymru, gyda rhai meysydd mewn argyfwng.

**Gwybodaeth Ychwanegol:**

Mae'r diffyg capasiti a welir ar hyn o bryd yn deillio o broblemau hirsefydlog o ran llwyth gwaith, y gweithlu, a llesiant, sy'n gysylltiedig â thanariannu cronig ym maes gwasanaethau meddygol cyffredinol.

Mae ymgyrch gan BMA Cymru Wales, sef Achubwch ein Meddygfeydd, yn gofyn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i becyn achub ar gyfer practisau cyffredinol, a hynny er mwyn sicrhau bod gan feddygon teulu a'u cleifion y cymorth sydd ei angen arnynt.

Drwy roi munud o'ch amser i lofnodi'r ddeiseb hon, gallwch ategu ein galwadau ar i Lywodraeth Cymru ddarparu pecyn achub ar gyfer practisau cyffredinol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru